

Nodiadau Athrawon

Gweithgaredd 1: Kindertransport a'r Plant a Ffodd i Gymru: Rhan 1 - Cefndir



PWNC

Kindertransport

Ffoaduriaid sy'n Blant yng Nghymru

GRŴP OEDRAN

Blwyddyn 7 (12 oed)

Cam Cynnydd 4

HYD

1 awr

MEYSYDD DYSGU A PHROFIAD

Iechyd a Lles

Dyniaethau

Ieithoedd, Llythrennedd
a Chyfathrebu

DISGRIFIAD

Yn y gweithgaredd hwn, bydd myfyrwyr yn ystyried yr ymadrodd 'ffoaduriaid', beth maen nhw'n meddwl mae'n ei olygu a pham maen nhw'n meddwl ei fod yn golygu beth mae'n ei wneud. Bydd myfyrwyr wedyn yn dysgu am blant Iddewig a ffodd yn ystod y 1930au. Byddant yn casglu gwybodaeth hanesyddol am y Kindertransport ac yn gwrandao ar brofiad bywyd plentyn oedd yn ffoadur.

Bydd myfyrwyr yn trafod ymateb Prydain i'r erledigaeth Natsiaidd ac yn cael cyfle i fyfyrion ar pam mae ffoaduriaid yn ffoi o'u mamwlad, i ddiogelwch.

Mae'r gweithgaredd hwn yn rhan o'r modiwl *Kindertransport a'r Plant a Ffodd i Gymru* ac argymhellir bod rhannau 2 a 3 hefyd yn cael eu cwblhau i ddeall ymhellach effaith emosiynol bod yn ffoadur.*

NODAU DYSGU

Ar ôl cwblhau'r gweithgaredd hwn bydd myfyrwyr yn:

- Ar ôl cwblhau'r gweithgaredd hwn bydd myfyrwyr yn:
- Deall ystyr yr ymadrodd 'ffoaduriaid'.
- Dysgu ffeithiau hanesyddol am y Kindertransport.
- Dysgu am gefndir y Kindertransport.
- Dysgu am ymateb Prydain a'r cysylltiadau lleol yng Nghymru.
- Myfyrion ar y profiad dynol y tu ôl i'r Kindertransport.

* Ceir rhestr lawn o weithgareddau ar ddiwedd y ddogfen hon.

OFFER SYDD EI ANGEN

Bwrdd gwyn/marcwyr, taflunydd, cyfrifiadur i wrando ar dystiolaeth.

Ystyriwch

Dywedwch wrth y myfyrwyr eu bod am ystyried a thrafod yr ymadrodd 'ffoaduriaid'. Ar y bwrdd, lluniwch fap meddwl a gofynnwch i'r dosbarth am eiriau sy'n dod i'ch meddwl yn awtomatig wrth feddwl am blant sy'n ffoaduriaid.

Trafodwch, fel dosbarth, pam mae'r myfyrwyr yn cysylltu'r geiriau hynny â'r ymadrodd 'ffoaduriaid'.

Efallai y bydd athrawon am drafod y gwahaniaethau rhwng ffoaduriaid, ceiswyr lloches ac ymfudwyr. Ysgrifennwch y tri gair ar y bwrdd a gofynnwch i'r myfyrwyr beth maen nhw'n ei wybod am y geiriau. Efallai y bydd myfyrwyr eisoes yn dangos dealltwriaeth o'r gwahaniaethau ond yn dibynnu ar allu'r dosbarth, efallai y bydd angen manylu ryw ychydig a chynnig enghreifftiau cyfoes priodol.

Mewn parau, ac ar y daflen waith i fyfyrwyr, dylai myfyrwyr ysgrifennu pum gair y maent yn eu cysylltu â'r gair DIOGEL (**Tasg 1**). Fel arweiniad, efallai y byddai'n ddefnyddiol gofyn i fyfyrwyr feddwl am yr hyn sy'n gwneud iddynt deimlo'n ddiogel, boed hynny gartref, yn yr ysgol, neu yn Nghymru.

Casglu

Anfonwyd un o'r plant i Gastell Gwrych, yng ngogledd Cymru. Fel cwestiwn cyffredinol, gofynnwch i'r myfyrwyr a ydyn nhw erioed wedi clywed am Gastell Gwrych. Efallai y bydd rhai yn adnabod y Castell gan eu bod yn byw gerllaw, eu bod wedi bod ar wyliau yn yr ardal neu o ffilmio'r rhaglen deledu, 'I'm a Celebrity Get Me Out of Here'. Nod y cwestiwn yw i blant wneud cysylltiad lleol.

Bydd y myfyrwyr yn gwrandao ar dystiolaeth gan blentyn a ddaeth i Gymru yn ystod y 1930au i ddianc rhag gormes ac erledigaeth y Natsïaid. Mewn grwpiau/parau bach gofynnwch i'r myfyrwyr ddarllen y daflen am y ffeithiau hanesyddol am *Kristallnacht* a mesurau gwrth-Iddewig.

Unwaith y byddant wedi darllen y deunydd gofynnwch i'r myfyrwyr ysgrifennu ar y daflen waith pum peth y mae'r testun yn eu dweud wrthynt am fywyd bob dydd pobl Iddewig o dan reolaeth y Natsïaid (**Tasg 2**).

Nodiadau Athrawon

Gweithgaredd 1: Kindertransport a'r Plant a Ffodd i Gymru: Rhan 1 - Cefndir

Casglu parhad

Nesaf, bydd y myfyrwyr yn darllen y daflen ar y Kindertransport. Gofynnwch iddyn nhw ysgrifennu, ar daflen waith y myfyrwyr, dri pheth sy'n dweud wrthyn nhw am ymateb Prydain i'r sefyllfa yn yr Almaen Natsïaidd (**Tasg 3**).

Bydd myfyrwyr yn darllen cofiant Mary Hochberg, plentyn a ddaeth i Gymru ar y Kindertransport ac yn gwrandao ar dystiolaeth Mary, lle mae'n trafod ei phrofiad o fod yn blentyn Iddewig yn yr Almaen Natsïaidd.

Gofynnwch i'r myfyrwyr weithio mewn paruau a chwblhau **Tasg 4** :

- Pa wybodaeth yn y dystiolaeth sy'n atgyfnerthu'r hyn rydych chi newydd ei ddarllen am *Kristallnacht* a mesurau gwrth-Iddewig? Rhestrwch bum darn o wybodaeth.
- Pam ydych chi'n meddwl bod rhieni Mary wedi penderfynu ei hanfon i Brydain Fawr? Meddyliwch am y wybodaeth a gasglwyd o'r testunau a'r clip a rhowch ddau reswm.

Llunio

Ar ôl darllen y taflenni a gwrandao ar y dystiolaeth, gofynnwch i'r myfyrwyr greu cerdd fer am brofiad ffoadur yn seiliedig ar stori Mary (**Tasg 5**); efallai yr hoffent gynnwys y geiriau a gasglwyd ganddynt wrth feddwl am y gair DIOGEL ac unrhyw eiriau ychwanegol y maent yn awr yn meddwl amdanynt ar ôl gwrandao ar Mary.

Cyfathrebu

Gan weithio mewn grwpiau bach, dylai myfyrwyr ddarllen o leiaf un gerdd a gyfansoddwyd gan eu cyd-ddisgyblion a darparu o leiaf un sylw yn canolbwyntio ar y cwestiwn: Sut mae'r gerdd hon yn ychwanegu at eich dealltwriaeth o'r Kindertransport neu brofiad y plant a ffodd?

Atodiadau

- Taflen 1: Kindertransport.
- Taflen 2: *Kristallnacht* a Mesurau Gwrth-Iddewig.
- Taflen 3: Mary Hochberg a Chastell Gwrych.
- Taflen 4: Trawsgrifiad Fideo.
- Taflen 5: Taflen Waith Myfyrwyr.

Rhestr o Weithgareddau

Gweithgaredd 1: Kindertransport a'r Plant a Ffodd i Gymru: Rhan 1 - Cefndir.

Gweithgaredd 2: Kindertransport a'r Plant a Ffodd i Gymru: Rhan 2 – Y Daith.

Gweithgaredd 3: Kindertransport a'r Plant a Ffodd i Gymru: Rhan 3 - Cyrraedd Cymru.

Gweithgaredd 4: Bywyd Iddewig yn Ewrop Cyn y Rhyfel: Hunaniaeth, Amrywiaeth a Chyffredinolrwydd.

Gweithgaredd 5: Yr Effaith Gyfreithiol: Sut Gall Cyfreithiau Erlid neu Ddiogelu.

Gweithgaredd 6: Rhagfarn a Phropaganda.

Gweithgaredd 7: Prydain a Cholled Etifeddol: Rhan 1.

Gweithgaredd 8: Prydain a Cholled Etifeddol: Rhan 2.

Gweithgaredd 9: Ailfeddwl Cyfrifoldeb.

Gweithgaredd 10: Gwrthsafiad a Chofio.